# CABINET CYNGOR GWYNEDD

**Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y cyfarfod:** | **18 IONAWR 2022** |
| **Aelod Cabinet:** | **CYNGHORYDD IOAN THOMAS** |
| **Swyddog Cyswllt:** | **DEWI A MORGAN, PENNAETH CYLLID** |
| **Rhif Cyswllt:** | **34684** |
| **Pwnc:** | **ADRODDIAD HERIO PERFFORMIAD YR AELOD CABINET CYLLID** |

---

**Y PENDERFYNIAD A GEISIR**

Derbyn a nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad.

---

**Y RHESYMAU PAM FOD ANGEN PENDERFYNIAD**

Er mwyn sicrhau rheoli perfformiad yn effeithiol.

---

**1. CYFLWYNIAD**

1.1 Pwrpas yr adroddiad yma yw diweddaru fy nghyd aelodau ar yr hyn sydd wedi digwydd yn y meysydd yr wyf yn gyfrifol amdanynt fel yr Aelod Cabinet dros Cyllid. Bydd hyn yn cynnwys amlinellu'r hyn sydd wedi digwydd yn erbyn addewidion Cynllun Cyngor Gwynedd 2018-2023; lle mae'r mesurau perfformiad arni; a'r diweddaraf o ran cynlluniau arbedion a thoriadau.

1.2 Hoffwn eich atgoffa bod yr holl faterion eisoes wedi bod yn destun trafodaeth ac wedi eu craffu gennyf mewn cyfarfod o Dîm Rheoli'r Adran ar ddydd Mercher 15/12/2021, oedd hefyd yn cynnwys y Cyfarwyddwr Corfforaethol a chynrychiolwyr o'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu. Cafwyd trafodaeth gadarnhaol, lle'r oedd gan uwch reolwyr yr Adran atebion cadarn i gwestiynau'r Cynghorwyr.

1.3 Rwy'n falch iawn o nodi fod perfformiad yr Adran Cyllid wedi aros yn gyffredinol dda dros y misoedd diwethaf, er gwaethaf yr heriau sydd wedi ein hwynebu yn sgil y pandemig Covid-19. Mae'r Adran hefyd wedi gwneud cynnydd boddhaol ar y prosiectau blaenoriaeth.

## 2. PROSIECTAU CYNLLUN CYNGOR GWYNEDD 2018-2023 [Blaenoriaethau Gwella)

2.1 Nodir isod y cynnydd sydd wedi ei wneud hyd yma yn erbyn prosiectau blaenoriaeth yr Adran. Mae'r blaenoriaethau hyn yn mynd i'r afael gyda phrif risgiau'r Adran.

### 2.2 Trosglwyddiad unedau gwyliau o'r Dreth Gyngor i Drethi Busnes

2.2.1 Rydym yn bwriadu parhau i bwyso am ddiwygio'r drefn yn y maes yma yn ystod y blynyddoedd nesaf, gan ddefnyddio tystiolaeth rydym yn ei gasglu yn barhaus, er mwyn cael Gweinidogion Llywodraeth Cymru i ddeall maint y broblem sy'n bodoli yng Ngwynedd. Byddwn hefyd yn cefnogi'r Adran Amgylchedd wrth iddynt barhau â'r gwaith o bwyso ar Lywodraeth Cymru i ddiwygio'r Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref i gynnwys dosbarth defnydd penodol ar gyfer tai preswyl a ddefnyddir fel llety gwyliau, ynghyd â chyflwyno trefn trwyddedu orfodol er mwyn gallu gweithredu'r busnes. Y nod yw na ddylai unrhyw eiddo heb ganiatâd priodol ar gyfer ei ddefnyddio fel llety gwyliau tymor byr fod yn gymwys i drosglwyddo o fand Treth Cyngor i'r rhestr ardrethi annomestig. Mae'r Cyngor yn buddsoddi'r incwm a geir o'r premiwm Treth Gyngor yn ein Cynllun Gweithredu Tai er mwyn ceisio lleddfu rhywfaint ar yr effaith andwyol y mae ail gartrefi yn ei gael ar argaeledd tai i bobl leol. Wrth i eiddo drosglwyddo i fod yn unedau gwyliau mae posibilrwydd y bydd llai o eiddo yn destun y premiwm.

2.2.2 Fel cam allweddol diweddar, bu'r Adran Gyllid yn cydlynu ymateb y Cyngor i'r ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar drethiant lleol, cyn iddo gau ar 17 Tachwedd 2021. Roedd y ddogfen ymgynghori yn cynnwys 13 o gwestiynau penodol, yn ogystal â chyfle i gyflwyno unrhyw bwyntiau cysylltiedig eraill.

2.2.3 Rydym yn disgwyl am ymateb Llywodraeth Cymru i'r ymgynghoriad cyn ystyried y camau nesaf.

### 2.3 Cyflawni Arbedion

2.3.1 Mae gan y Cyngor drefniadau cynllunio ariannol sydd eisoes wedi adnabod arbedion effeithlonrwydd sylweddol er mwyn isafu'r toriadau gwasanaeth i drigolion Gwynedd. Yn Ionawr 2021, adolygwyd y cynlluniau arbedion i asesu pa gynlluniau hanesyddol oedd bellach yn anghyraeddadwy, a lluniwyd rhaglen ddiwygiedig o arbedion ar gyfer 2021/22 yn dilyn cymryd camau i ddileu, llithro ac ail broffilio cynlluniau arbedion.

2.3.2 Bellach gellir adrodd fod dros £32.8 miliwn o arbedion wedi eu gwireddu ers 2015/16, sydd yn 94% o'r £34.8 miliwn ofynnol dros y cyfnod. Llwyddwyd eisoes i wireddu 45% o gynlluniau arbedion 2021/22 gyda 19% pellach ar drac i gyflawni'n amserol eleni. Drwy'r trefniadau cadarn sydd gennym i fonitro sut y mae adrannau yn cyflawni arbedion, byddwn yn sicrhau bod y rhaglen ddiwygiedig yma yn cael ei chyflawni. Byddwn hefyd yn cefnogi adrannau gyda chostau trawsffurfio, wrth iddynt gyflwyno trefniadau gwaith newydd.

2.3.3 Mae adroddiad manwl ar gynlluniau arbedion fesul adran yn cael ei gyflwyno i Gabinet 18 Ionawr 2022.

## 3. PERFFORMIAD

3.1 Nodir isod drosolwg o berfformiad yr Adran hyd yn hyn.

3.2 Cyflwynwyd Datganiad o'r Cyfrifon Gwynedd yn dilyn yr archwiliad, ynghyd ag adroddiad yr archwilwyr allanol ar y Cyfrifon (adroddiad "ISA260"), i Bwyllgor Archwilio a Llywodraethu 14eg Hydref. Unwaith eto eleni cyhoeddwyd barn diamod ar y Datganiad o Gyfrifon. Hynny yw, ym marn yr archwiliwr roedd datganiadau ariannol yn rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa ariannol Cyngor Gwynedd ar 31 Mawrth 2021 ac o'i incwm a'i wariant ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny ac wedi eu paratoi'n briodol yn unol â'r safonau priodol.

3.3 Llwyddwyd hefyd i gwblhau adroddiad blynyddol y Gronfa Bensiwn cyn y dyddiad statudol o 1af o Ragfyr. Cynhaliwyd cyfarfod blynyddol llwyddiannus ym mis Tachwedd gyda nifer o gyflogwyr, staff, aelodau pwyllgor ac aelodau'r bwrdd wedi mynychu.

3.4 Mae'r pandemig Covid yn parhau i effeithio ar trefniadau'r Adran, gyda chyfraddau casglu ardrethi annomestig yn is na'r cyfnod cyfatebol blaenorol; erbyn diwedd Tachwedd 2021 roedd y raddfa gasglu (h.y. casgliad o fewn y flwyddyn) yn 68.34%, sydd yn ostyngiad ar 72.4% am yr un cyfnod yn 2020/21 a 77.5% yn 2019/20.

3.5 Effaith arall o'r pandemig sy'n parhau yw'r cynnydd yn y nifer o geisiadau taliad cefnogi hunan ynysu, derbyniwyd 766 cais ym mis Tachwedd, sydd yn faich ychwanegol ar y Gwasanaeth Budd-daliadau. Sgil effaith hyn oedd gweld cynnydd ym mis Tachwedd yn y nifer dyddiau a gymerwyd ar gyfartaledd i brosesu cais budd-dal newydd, sef **20.68** diwrnod o gymharu gyda pherfformiad o 16.7 diwrnod yn yr un cyfnod yn 2020/21.

3.6 Gwerthfawrogir fod y Gwasanaeth Archwilio Mewnol wedi rhyddhau 5 swyddog er mwyn cynorthwyo gyda'r Gwasanaeth Profi, Olrhain a Diogelu, gan dreulio oddeutu 95 diwrnod yn cynorthwyo'r Gwasanaeth POD. Sgil effaith hyn yw mai dim ond 24.53% o'r cynllun archwilio sydd wedi ei gwblhau, h.y. ble mae'r archwiliad wedi cau neu gydag adroddiad terfynol wedi ei rhyddhau. Mae posibilrwydd bydd angen rhyddhau swyddogion Archwilio Mewnol i gynorthwyo'r Gwasanaeth Budd-dal i ddelio gyda thaliadau Tanwydd Gaeaf ychwanegol yn ogystal â delio gyda'r cynnydd mewn galw am daliadau hunan ynysu. Bydd y Cynllun Archwilio yn cael ei adolygu yn sgil hyn, gyda phwyslais i flaenoriaethu archwiliadau sydd o risg uwch/uchel. Bydd unrhyw addasiadau i'r Cynllun Archwilio'n cael eu hadrodd yn y drefn arferol i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu.

3.7 Mae gwerth dyledion amrywiol yn parhau'n broblem ac wedi cynyddu ers yr hyn adroddwyd ym mis Gorffennaf. Mae angen cadw golwg ar yr holl ddyledion, ond mae angen datrysiad buan i ddyledion hanesyddol y Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr. Mae trafodaethau ar sawl lefel rhwng swyddogion y Cyngor a'r Bwrdd Iechyd ar y gweill i geisio datrys y sefyllfa.

3.8 Mae gwytnwch systemau mewnol ac argaeledd rhwydwaith y Cyngor yn parhau'n iach. Bu gwaith sylweddol i gryfhau ein gallu i amddiffyn ymosodiadau seibr a'n gallu i adfer pe byddai ymosodiad yn torri drwy ein hamddiffynfeydd. Byddai effaith ymosodiad o'r fath Log4J yn ddinistriol, felly mae'n weithgaredd er mwyn isafu'r risgiau hyn yn parhau. Er bod argaeledd systemau mewnol TG Gwynedd yn uchel (99.95%), mae un system genedlaethol yn peri pryder, gyda pherfformiad WCCIS (system gwasanaethau gofal) ddim yn cyrraedd y safonau disgwyliedig.

## 4. SEFYLLFA ARIANNOL / ARBEDION

4.1 Rhagwelir y bydd yr Adran Gyllid gyda sefyllfa ariannol o danwariant o £56k ar ddiwedd y flwyddyn ariannol 2021/22, gyda chyfuniad o resymau yn gyfrifol am y tanwariant, gan gynnwys tanwariant un tro oherwydd swyddi gwag ynghyd â derbyniad incwm mewn nifer o feysydd. Bydd adolygiad manwl o sefyllfa ariannol 2021/22 yr adran yn cael ei gynnal fel rhan o'r adolygiad refeniw ddiwedd Tachwedd ar gyfer y Cyngor cyfan, a adroddir i'r Cabinet ar 18 Ionawr 2022.

4.2 Erbyn diwedd 2020/21 bu i'r Adran Gyllid wireddu dros £1.7 miliwn o arbedion dros gyfnod o chwe blynedd ers 2015/16. Llwyddodd yr Adran Gyllid i wireddu £151k, sef 88% o'i gynlluniau arbedion perthnasol i 2020/21, gyda gwerth 80% o gynlluniau arbedion 2021/22 eisoes wedi eu gwireddi eleni. Gweler **Atodiad 1** sydd yn cynnwys y cynlluniau arbedion.

4.3 Bu i'r argyfwng Covid-19 arwain at oediad mewn gwireddu un cynllun 'Cynhyrchu Incwm drwy Atal Twyll' gwerth £20k yn 2020/21 (12% sydd yn weddill o gynlluniau 2021/22) a £20k perthnasol i 2021/22, yn dilyn atal cyfweliadau yn ymwneud â hawliadau twyllodrus yn y maes Budd-daliadau dros gyfnod yr argyfwng. Maent yn parhau heb eu hail gychwyn o ganlyniad i'r amgylchiadau presennol, felly rhagwelir oediad pellach mewn gwireddu'r £40k.

---

**BARN Y SWYDDOGION STATUDOL**

**Y Swyddog Monitro:**
Dim sylwadau i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb.

**Pennaeth Cyllid:**
Rwyf wedi cydweithio gyda'r Aelod Cabinet i baratoi'r adroddiad yma ac yn cadarnhau'r cynnwys.

**Atodiadau**

**Atodiad 1** – Arbedion yr Adran Gyllid

**ATODIAD 1**

## Arbedion yr Adran Gyllid

| | 2015/16 | 2016/17 | 2017/18 | 2018/19 | 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **£** | **£** | **£** | **£** | **£** | **£** | **£** |
| **<u>Gwireddwyd</u>** | 471,010 | 374,601 | 115,215 | 66,430 | 558,650 | 150,730 | |
| Creu incwm drwy werthu system tracio fflyd | | | | | | | 5,000 |
| Arbedion treth ar gynllun newydd Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol yn y maes Pensiwn i weithwyr y Cyngor | | | | | | | 45,000 |
| Arbedion drwy hunan gyllido yn hytrach na benthyca yn allanol | | | | | | | 30,000 |
| Cynhyrchu incwm drwy atal twyll | | | | | | 20,000 | 20,000 |
| **Cyfanswm Arbedion** | **471,010** | **374,601** | **115,215** | **66,430** | **558,650** | **170,730** | **100,000** |